

2012 Rhif 395 (Cy. 64)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Pont Abraham a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2012

Gwnaed 15 Chwefror 2012

Yn dod i rym 27 Chwefror 2012

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Llundain – Abergwaun (yr A48), Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A483) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y cefnffyrdd”) a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y draffordd”), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd a'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 27 Chwefror 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 a Thraffordd yr M4 (Cylchfan Pont Abraham a'r ffyrdd sy'n arwain ati, Sir Gaerfyrddin) (Cyfyngiadau Traffig a Gwaharddiad Dros Dro) 2012.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 27 Chwefror 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o'r cefnffyrdd” (“*the lengths of the trunk roads*”) yw'r darnau hynny o gefnffyrdd yr A48 a'r A483 wrth Gylchfan Pont Abraham a'r rhai sy'n arwain ati yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn;

ystyr “y darn o'r draffordd” (“*the length of the motorway*”) yw'r darn o draffordd yr M4 sy'n arwain at Gylchfan Pont Abraham yn Sir Gaerfyrddin a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu at Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn Atodlenni 1 a 2.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb yn ystod cyfnod y gwaith ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r cefnffyrdd a'r draffordd a bennir yn yr Atodlenni yn ystod yr adegau hynny y mae'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 5 ar waith.

7. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

8. Bydd y Gorchymyn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog
Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion
Cymru.

Dyddiedig y 15 Chwefror 2012

Gareth Morgan

GARETH MORGAN
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

Terfynau Cyflymder Dros Dro 50 mya, 40 mya neu 10 mya

Y darn o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn tua'r gogledd o'i chyffordd ag ymyl gogleddol Cylchfan Pont Abraham am bellter o 1200 o fetrau.

Y darn o draffordd yr M4 sy'n ymestyn tua'r de o'i chyffordd ag ymyl deheuol Cylchfan Pont Abraham am bellter o 1200 o fetrau.

ATODLEN 2

Terfynau Cyflymder Dros Dro 40 mya neu 10 mya

Y darn o gefnffordd yr A483 sy'n ymestyn tua'r gogledd-ddwyrain o'i chyffordd ag ymyl dwyreiniol Cylchfan Pont Abraham am bellter o 400 o fetrau.

Hyd cyfan cerbyttffordd yr A48 sy'n cylchredeg o gwmpas Cylchfan Pont Abraham.